

## Cofion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Carys Jones (Llansannan) ac Eleri Evans (Cefn Meiriadog) yn eu profedigaeth o golli eu tad, ac â Meira Jones (Cefn Berain) o golli ei brawd, Tecwyn Evans. Cofiw'n hefyd am weddill y teulu a gweddiwn y byddant oll yn adnabod cariad Duw yn eu hamgylchynu yn eu galar a'u hiraeth amdano. Anfonwn ein cofion hefyd at Morfudd Williams (Henllan) a Megan Evans (Llansannan), y ddwy ohonynt yn cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, a hefyd Margaret Davies (Groes) gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Broadgreen ddiwedd yr wythnos ddiwethaf ond sydd bellach wedi cael dod adre. Hyderwn y byddant yn profi daioni Duw yn eu cynnal a'u gwarchod y diwrnodau hyn.

## “Fy hoff ddarn o'r Beibl”

Gan ei bod yn Flwyddyn y Beibl Byw eleni, gwahoddir chi (plant ac oedolion) i gyflwyno eich hoff ddarn o'r Beibl mewn unrhyw ffurf ar gyfer "i-Grist" eleni, sef y gwasanaeth bore Sul y Fro, Mehefin 26ain. Mae croeso i chi ddarlunio eich hoff ddarn o'r Beibl mewn unrhyw gyfrwng, boed hynny mewn llun neu eiriau, i ddweud adnod, i baratoi fideo byr, i gyflwyno sgets, neu trwy unrhyw gyfrwng arall. Bwriadwn baratoi cyflwyniad PowerPoint i ddangos yr hyn fedrwn ni ar y wal yn ystod yr oedfa "i-Grist", neu os bydd amser yn caniatáu yn ystod yr oedfa, gallwch gyflwyno eich gwaith ar lafar. Gofynnwn yn garedig i chi, neu i'r arolygwyr Ysgol Sul, drefnu fod pob cyflwyniad (ynghyd â'r enwau) yn cyrraedd Mair **erbyn dydd Mercher, Mehefin 22ain**, os gwelwch yn dda. Yn yr un modd, plis gadewch i Mair wybod erbyn yr un dyddiad os bydd gennych waith llafar i'w gyflwyno.

## Hysbysebu Swydd

Cytundeb blwyddyn (Medi 2015 – Awst 2016) roddwyd i Gwion a Sarah sy'n rhannu'r swydd 'Cynorthwy-ydd Gweinidogaethol' ar hyn o bryd tra bod Rhodri Glyn yn astudio yng Ngholeg Oak Hill, Llundain. Oherwydd hynny, rydym yn hysbysebu'r swydd yn barhaol y tro hwn gan y bydd Rhodri yn dod yn ei ôl yn Weinidog i'r Fro. Os oes unrhyw un o ddarllenwyr *Llais Bro Aled* yn awyddus i gael manylion y swydd ynghyd â ffurflen gais, mae croeso i chi wneud hynny trwy gysylltu â Mair. Bydd y dyddiad cau ar Fehefin 21ain.

## I ddod

**SUL Y FRO** – dydd Sul, Mehefin 26ain. Oedfa'r bore – **“i-Grist”** i deuluoedd holl eglwysï'r Ofalaeth yn Llansannan am 11:00 yng nghwmni Andy Hughes (Cyfarwyddwr Saint y Gymuned). Yn dilyn yr oedfa, byddwn yn mynd i gyfeiriad Caernarfon ac yn stopio i gael picnic (o bosib ym Metws y Coed), cyn mynd i'r Hwylfan neu i fynd am dro o gwmpas y dref yng Nghaernarfon. Wedi tamaid i'w fwyta yn y dref, byddwn yn ymuno â chynulleidfa Capel Caersalem, Caernarfon ar gyfer oedfa am 5:30 fydd yn cael ei harwain gan eu gweinidog, y Parch. Rhys Llwyd. Mae Capel Caersalem wedi ei weddnewid yn ddiweddar ac mae pobl o bob oed yn addoli yno. Croeso i bawb!



# Llais Bro Aled

Dydd Sul, 12<sup>fed</sup> Mehefin 2016

Darlleniad y Dydd

Datguddiad 1:12-19

(BCND tud.270 / BCN tud.248)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd! Rydan ni wedi cael ein bendithio'n fawr yn ddiweddar wrth droi at lyfr Eiseia yn y Beibl a sylwi gymaint a gafodd o ei weld o gynllun Duw ganrifoedd cyn geni Iesu Grist. Rydan ni'n meddwl am broffwydi fel rhai sy'n medru gweld ymlaen – proffwydo'r dyfodol. Mae gan bob un ohonom ddi-ddordeb yn yr hyn sydd o'n blaenau ni – ac mae'n siŵr ei fod yn beth reit iach cymryd diddordeb yn yr hyn sy'n mynd i ddigwydd i ni!

Wedi dweud hynny, mae yna ffyrdd gwell na'i gilydd i ddod â ni i weld ein dyfodol. Dibynnu ar y Beibl sydd orau i ni o bell ffordd, yn hytrach na chwilio am swynwyr sy'n mynd i honni y medran nhw weld manylion ein dyfodol. (Eiseia 8:19)

Gwyddoniaeth gyntefig sydd ganddom ni o hyd i broffwydo'r dyfodol, hyd yn oed yn y byd meddygol – does yr un 'prognosis' yn gant y cant. A phwy all ragweld sut y bydd hi ar beldroedwyr Cymru yn yr 'Euros'? Mae angen gofal mawr felly wrth ymddiried y dyfodol i unrhyw wyddoniaeth, ffawd na pherson. Felly, pam ddylen ni wrando ar broffwydi'r Beibl?

Un rheswm ydi hyn: cael gwybod beth yr oedd Duw am ei wneud oedd y proffwydi yn y Beibl. Cael datguddiad o gynllun a bwriadau Duw oedden nhw, ac ar ôl cael gwybod beth oedd cynllun Duw, fe fydden nhw hefyd yn cael gwybod beth oedd am ddigwydd i unigolion a phobl o ganlyniad i'r ffordd yr oedd Duw am siapio'r dyfodol. Fe fydden nhw'n dweud wrth y bobl, heb flewyn ar dafod, beth oedd eu hopsynau, a beth fyddai canlyniadau gwranddo neu wrthod gwranddo ar yr hyn yr oedd Duw yn ei ddweud, a'r hyn yr oedd o am ei wneud.

Yr hyn sy'n rhyfeddol am lyfr y proffwyd Eiseia ydi pa mor gywir a manwl ydi'r datguddiad a gafodd o'r ffordd yr oedd Duw am ddelio hefo sefyllfa'r byd. Roedd Duw am ddod fel baban, fel plentyn, fel gwas i'w fyd ei hun! Roedd am ddod i gymryd arno'i hun 'ein doluriau ni, a'n hanwireddau ni i gyd'. Byddai'n dod fel yr Oen i'w ladd yn ein lle! Y Meseia, Iesu, a Iesu'n unig fyddai yn lawn dros bechodau'r holl fyd, ac fel Oen Duw, byddai'n atgyfodi ac yn derbyn 'pob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear'. Fe fydd dyfodol pob un ohonom yn dibynnu ar ein cred ynddo, neu ein hanghrediniaeth ynddo.

Pa ddychymyg dynol fyddai'n gallu proffwydo hyn am y ffordd y byddai Duw yn gweithredu? Mae'n rhaid bod Ysbryd Duw yn goleuo'r proffwydi ac yn eu cynghori. Dyna pam mae'r Beibl yn well i ni na dim pan mae'n dod yn fater o ystyried ein dyfodol! Os ydach chi eisiau gwybod beth sydd am ddigwydd i chi, darllenwch y Beibl! Mae Gair Duw yn ddibynadwy ac yn gallu goleuo ein dyfodol ni trwy'r un Ysbryd.

**DILYNWCH NI:** @eglwysibroaled

*Aneurin*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Llun – 13<sup>eg</sup> • **Christian Viewpoint** yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel am 7.30. “Bywyd Maer” gyda Sam Rowlands. £3 yn cynnwys bwffe.
- Mercher – 15<sup>fed</sup> • **Adnabod Cymdeithasol** – Taith gerdded hamddenol. Cyfarfod ym maes parcio Capel Coffa Henry Rees, Llansannan am 6.30. Os bydd y tywydd yn anffafriol, edrychwch ar dudalen flaen gwefan yr Ofalaeth neu cysylltwch â Mair i wybod fydd y daith ymlaen ai peidio.
- Gwener – 17<sup>eg</sup> • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Gwener – Sul 17<sup>eg</sup> – 19<sup>eg</sup> • **Penwythnos Plant 8 – 12 oed** (Agored) yng Ngholeg y Bala. Cofiwch bod angen i chi archebu lle ymlaen llaw ac anfon blaendâl o £10, a bod £20 o ostyngiad i bob plentyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Mr Rhys Morgan yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir 'Wedi'r Oedfa' yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn am 7.30 yng nghwmni Parti'r Llan, Glan Conwy, Glyn Roberts, Erin Rossington, a Robert Douglas Owen. Y Llywydd fydd Rhiannon V. Bumby, Abergele. Croeso i bawb.
- Mawrth – 14<sup>eg</sup> Bydd cinio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> Bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00 a bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

## Cyhoeddiadau

### Llansannan

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> Bydd Gwion yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10. Cynhelir Cymanfa Ganu Annibynwyr Dyffryn Clwyd yng Nghapel Bethel, Yr Wyddgrug am 2.30. (Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2015-16.) Arweinydd: Nia Wyn Jones, Gellifor.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> Cynhelir Cyfarfod Gweddi am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Mawrth – 14<sup>eg</sup> Bydd cyfarfod i holl aelodau Capel Tanyfron yn y Ganolfan am 7.30.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 12<sup>fed</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Gwener – 17<sup>eg</sup> Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul, Mehefin 12fed** os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 19<sup>eg</sup> Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa deuluol I'R DAITH yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghefn Berain am 2.00.

### Manylion Cyswllt

Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
Gwion – ✉ gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07849 591163  
Sarah – ✉ sarah@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07900 308461  
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

### Darllenid Wythnos Nesaf

Eseia 51:1-3 (BCND tud.667 / BCN tud.609)